GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Tîm Amddiffyn Iechyd**
**Health Protection Team**

**Ffôn/Tel:** 0300 00 300 32
**Ebost/Email:** aware@wales.nhs.uk

**Gwefan/Web:**
www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

Eich cyf:
Ein cyf:

Dyddiad:

**At:**
Meithrinfeydd
Ysgolion cynradd ac uwchradd
Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol
Byrddau Iechyd at sylw: Tîm Iechyd y Cyhoedd; Ymwelwyr Iechyd; Gofal Sylfaenol; Nyrsys Iechyd Ysgol
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

Annwyl Gydweithwyr,

**Parthed: Cynnydd yn nifer yr achosion o'r dwymyn goch a chlefyd streptococol ymledol yn 2022**

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu am gynnydd diweddar yn nifer yr hysbysiadau a gafwyd o'r dwymyn goch a'r clefyd streptococol ymledol. Cafwyd 1,512 hysbysiad o'r dwymyn goch yn ystod 47 wythnos cyntaf 2022, o'i gymharu â 948 yn yr un cyfnod yn 2019. Cafwyd nifer is o hysbysiadau o'r dwymyn goch yn ystod 2020 a 2021 (sy'n debyg o fod oherwydd y newidiadau o ran trosglwyddiad ac ymddygiad yn ystod y cyfnod hwn).

Rydym yn rhoi gwybod i ysgolion a meithrinfeydd am hyn gan mai plant o dan 10 oed sy'n cael eu heffeithio gan yr haint hwn yn bennaf, ac felly gall achosion ohono ddigwydd mewn ysgolion a meithrinfeydd. Bydd plant hŷn hefyd yn dueddol o gael dolur gwddf streptococol, ond efallai na fyddan nhw'n cael brech y dwymyn goch.

**Arwyddion a symptomau'r dwymyn goch**
Mae'r dwymyn goch, a elwir weithiau'n *scarlatina*, yn glefyd heintus sy'n cael ei achosi gan facteria streptococws grŵp A (GAS) (a elwir hefyd yn *Streptococcus pyogenes*).

Mae'n heintus iawn a gellir ei ddal drwy gysylltiad uniongyrchol ag unigolyn sydd wedi'i heintio neu drwy'r aer o ddiferion o beswch neu disian.

Symptom nodweddiadol y dwymyn goch yw brech binc fân ar draws y corff sy'n teimlo fel papur gwydrog i'w gyffwrdd. Mae symptomau eraill yn cynnwys tymheredd uchel, wyneb gwritgoch a thafod coch, chwyddedig.

Mae'r driniaeth yn syml ac fel arfer mae'n cynnwys rhoi cwrs o wrthfiotigau penisilin.

**Cymhlethdodau'r dwymyn goch a'r haint streptococol**
Nid yw'r rhan fwyaf o achosion o'r dwymyn goch yn achosi unrhyw gymhlethdodau, yn enwedig os yw'r cyflwr yn cael ei drin yn iawn. Fodd bynnag, gall cymhlethdodau ddigwydd

yn ystod cyfnod cynnar y clefyd, gan gynnwys haint yn y glust, casgliad yn y gwddf, sinwsitis, niwmonia a llid yr ymennydd.

Mae cymhlethdodau prin iawn yn cynnwys clefyd crydycymalau/gwynegon, niwed i'r arennau, niwed i'r iau, haint esgyrn, gwenwyn gwaed a syndrom sioc wenwynig a allai beryglu bywyd.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o glefyd difrifol sy’n cael ei achosi gan y bacteriwm hwn (heintiadau streptococol grŵp A ymledol) yn niwedd 2022, gan gynnwys rhai achosion angheuol mewn plant. Gall y clefyd ymledol ddigwydd heb i berson fod wedi cael y dwymyn goch neu ddolur gwddw yn gyntaf. Mae arwyddion cynnar y clefyd ymledol yn cynnwys: tymheredd uchel, poenau cyhyrol difrifol, dolur penodol mewn cyhyrau, neu gochni o gwmpas clwyf. Os oes unrhyw bryderon am y clefyd ymledol, yna rhaid cael cyngor meddygol brys.

**Y camau a argymhellir**

- Dylai staff fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o'r haint hwn mewn plant sy'n mynd yn sâl â thymheredd, dolur gwddf neu frech.
- Dylid cynghori rhieni plant sy’n sâl i gael cyngor meddygol ar gyfer diagnosis a thriniaeth.
- **Dylai person sydd â’r dwymyn goch adael** eich lleoliad am **24 awr** ar ôl cychwyn triniaeth wrthfiotig briodol.
- Pan fo dau achos neu fwy o’r dwymyn goch yn eich lleoliad o fewn yr un cyfnod o 10 diwrnod, rhowch wybod i'r Tîm Diogelu Iechyd ar 0300 00 300 32 i gael rhagor o gyngor.
- Os yw’r dymwyn goch yn cylchredeg ar yr un pryd â **brech yr ieir neu'r ffliw,** gall hynny gynyddu'r risg o glefyd ymledol – rhowch wybod i'r Tîm Diogelu Iechyd fel yr uchod.
- Gall hylendid dwylo da ac osgoi lledaenu diferion anadlol (fel gyda’r ffliw- "ei ddal, ei daflu, ei ddifa") helpu i atal yr haint rhag lledaenu.

Diolch yn fawr am eich cymorth.

Yn gywir,



**Dr Rhianwen Stiff**
**Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy**

**Ffynhonnell y cyngor:**

GIG 111 Tudalen we twymyn y Scarlet Cymru
https://111.wales.nhs.uk/encyclopaedia/s/article/scarletfever